# Creu Dehongliadau sy'n Addas i Deuluoedd

Ein hawgrymiadau gorau am greu testun a phanelau sy'n hygyrch ac addas i deuluoedd yn eich amgueddfa neu eich safle treftadaeth.

**Crëwyd y canllaw hwn mewn partneriaeth â Sarah Shaw, Cyfarwyddwr Museum Tales Ltd. Mae Sarah wedi cynhyrchu dehongliadau addas i deuluoedd ar gyfer English Heritage, York Art Gallery, Abaty Caerfaddon a safleoedd eraill ledled Prydain.**

Mae Kids in Museums yn credu bod croesawu teuluoedd i'ch safle'n hanfodol i unrhyw amgueddfa, ond gall y syniad achosi pryder i staff a gwirfoddolwyr. Rydym wedi creu'r canllaw byr yma i'ch cefnogi chi a'ch tîm i ddatblygu amgylchedd mwy croesawgar i deuluoedd drwy gyflwyno dehongliadau sy'n addas iddynt.

Nodwch, nid yw'r adnodd hwn yn cynnwys adnoddau neu ddehongliadau digidol.

## Cychwyn arni

Does dim rhaid iddi fod yn dasg anodd i greu testun addas i deuluoedd ar gyfer eich amgueddfa. Y cwbl sydd ei angen yw rhywfaint o waith cynllunio ac ystyriaeth. P'un a ydych chi'n cynhyrchu arddangosfa wedi ei bwriadu ar gyfer teuluoedd, neu eisiau gwella eich dehongliad ehangach er mwyn ennyn diddordeb teuluoedd, mae angen i chi gynllunio i fod yn hygyrch i bob oedran.




Un o'r pethau allweddol i'w hystyried yw at bwy mae eich arddangosfa wedi ei hanelu. Os ydy hi'n arddangosfa i deuluoedd, fel yr arddangosfa Marvellous and Mischievous: Literature's Young Rebels yn y British Museum, byddwch eisiau llunio eich testun, eich cynllun a'ch dull ar gyfer y teulu cyfan, gan ystyried grwpiau oedran penodol.

Fodd bynnag os mai dim ond rhan fach o'ch demograffeg yw teuluoedd, efallai y byddwch eisiau cynllunio ffordd o rannu'r eitemau gorau, cyfeirio at ffeithiau allweddol ac ysgogi trafodaethau. Byddwch yn sylwi bod mannau fel y Tate yn creu labeli ar wahân, yn benodol i deuluoedd sydd i fynd ochr yn ochr â'r testun i'r gynulleidfa oedolion ehangach. Mae safleoedd eraill yn defnyddio masgotiaid i dynnu sylw at wybodaeth sy'n addas i deuluoedd.

Cofiwch, fodd bynnag, y gall teuluoedd fod yn fyr o amser ac efallai nad ydyn nhw'n gallu canolbwyntio'n hir, felly peidiwch â'u gorlwytho nhw gyda dehongliadau. Yr hyn maen nhw ei eisiau yw dehongliad haenog, hawdd ei ddarllen, wedi'i gyfuno â chroeso mawr i deuluoedd (mae rhagor o gyngor am hyn yn ein hadnodd Croesawu teuluoedd i'ch safle), staff a gwirfoddolwyr gwybodus, ac adnoddau addas i blant os oes rhai gennych (mae rhagor o gyngor am hyn yn ein canllaw Creu Adnoddau Hunandywys i Deuluoedd.)

Pa un bynnag a ddewiswch, mae'n hanfodol eich bod yn cynllunio ar gyfer teuluoedd ac yn ystyried sut y byddwch efallai eisiau ymgysylltu â nhw drwy eich dehongliad yn y dyfodol.

## Adnabod eich cynulleidfa

Gydag arddangosfa neu banel, mae'n bwysig cofio bod teuluoedd o bob math i'w cael. Mae ganddyn nhw oll ddynameg wahanol, mae'r hyn mae pob un yn ei wybod yn wahanol ac mae eu pwyntiau cyfeirio a'u rhesymau dros ddod i'ch safle i gyd yn wahanol.

Cyn i chi ddechrau ysgrifennu eich testun – p'un a ydyw ar gyfer panel neu ar gyfer arddangosfa gyfan – mae werth ystyried i bwy mae eich testun.

Gallwch ganfod rhagor am eich ymwelwyr drwy wneud arolygon cyflym ar y ddesg wrth y fynedfa, cynnal grwpiau ffocws neu wneud dadansoddiad o'ch cynulleidfa. Efallai fod eich sefydliad yn rhan o Audience Answers, neu efallai ei fod wedi gweithio gyda chwmni ymchwil i'r farchnad. Gofynnwch gwestiynau i bobl ac yna diffiniwch i bwy y mae eich testun.

## Creu rhestr wirio

Unwaith y byddwch wedi canfod pwy yw eich cynulleidfa, mae'n ddefnyddiol creu rhestr wirio o'ch gobeithion ar gyfer eich testun a sut y bydd yn ateb anghenion eich teuluoedd. Gall hyn gynnwys popeth o dôn eich llais i gadw golwg ar oedrannau darllen a chyfleu stori eich arddangosfa iddynt.

Gallai'r rhestr wirio edrych fel hyn:

- **Ydy'r testun wedi'i anelu at oedran y plant a'r ddemograffeg teulu yr ydym yn gobeithio amdani?**
  Edrychwch ar ein canllaw am Greu Adnoddau Hunandywys i Deuluoedd i gael rhagor o wybodaeth am wahanol grwpiau oedran.

- **Ydy'r testun hwn o fewn y nifer o eiriau yr ydym yn ei ganiatáu?**
  Mae angen i deuluoedd allu dod o hyd i wybodaeth yn gyflym. Gosodwch nifer

benodol o eiriau ar gyfer pob math o destun (e.e. panel cyfan, blychau ffeithiau, promptiau chwarae, labeli i deuluoedd). Gallai'r terfyn fod yn 100 o eiriau ar banel i deuluoedd yn unig, a 30 o eiriau ar gyfer blwch ffeithiau i deuluoedd.

- **Ydy'r testun hwn yn cynrychioli'r llais yr ydym eisiau i'n teuluoedd ei glywed?**
  Gosodwch her i chi'ch hun i greu llais i deuluoedd yn eich testun. Ydych chi eisiau i'ch testun i deuluoedd fod yn chwareus, awdurdodol neu archwiliadol? A fyddwch chi'n defnyddio llais gweithredol neu oddefol? Edrychwch ar y prompt chwareus hwn gan y Market Hall Museum yn Warwick.
- **Ydy fy nhestun yn ateb anghenion oedran darllen cyfartalog y DU?**
  Yr oedran darllen cyfartalog yn y Deyrnas Unedig i oedolyn yw rhwng 9 ac 11 oed. Gwnewch yn siŵr eich bod yn glynu at hyn drwy ddefnyddio apiau fel Grammarly, British Dyslexia Association a Hemingway Editor, sy'n chwilio trwy ddarnau o destun am frawddegau a thermau cymhleth.
- **Ydy'r testun yn gwneud y pethau roeddem wedi gobeithio y byddai'n eu gwneud?**
  Ystyriwch amcanion eich testun ac a yw eich cynnwys yn ateb yr amcanion hyn. Ai'r nod yw rhannu gwybodaeth, gosod y tôn, hybu trafodaeth neu rywbeth arall?

Mae gan Amgueddfa ac Orielau Leeds ganllaw ymarferol am ysgrifennu dehongliadau testun sy'n rhoi sylw i lawer o'r pwyntiau hyn.

Mae'n hawdd colli ein trywydd pan fyddwn yn frwdfrydig iawn am bwnc, felly defnyddiwch eich rhestr wirio i wneud yn siŵr eich bod ar y trywydd cywir. Rydym yn argymell eich bod yn gweithio gyda'ch tîm ehangach wrth wneud y gwaith er mwyn sicrhau bod y tîm arddangosfa cyfan yn cyfrannu a chytuno.

**Sut mae dehongliad i deulu'n edrych?**

Mae nifer o sefydliadau i'w cael sy'n cynhyrchu amrywiaeth eang o arddangosfeydd a dehongliadau i deuluoedd. O arddangosfa addas i deuluoedd arobryn gan English Heritage yng Nghaer Rufeinig Birdoswald i ddefnyddio masgotiaid a labeli addas i deuluoedd yn y Cranwell Aviation Heritage Museum.

Os ydych eisiau mynd amdani go iawn a chynhyrchu testun i banelau sydd wedi eu hanelu at deuluoedd, cofiwch y rheolau aur hyn:

- Nid yw cynhyrchu testun addas i deuluoedd yn ymwneud â siarad yn blentynaidd, mae'n ymwneud â gwneud themâu, gwybodaeth a straeon yn ddiddorol, darllenadwy ac apelgar.
- Peidiwch â chymryd yn ganiataol fod pobl yn gwybod pethau'n barod, ac ystyriwch a oes angen defnyddio termau technegol mewn gwirionedd. Os byddwch yn eu defnyddio nhw, esboniwch nhw mewn cromfachau.
- Ceisiwch osgoi gosod panelau mewn llwybr sefydlog i gael eu darllen mewn trefn benodol – yn aml iawn dydy plant ddim yn dilyn y llwybr llinol yr ydych wedi ei weld yn eich meddwl.

- Peidiwch â cheisio osgoi pynciau sensitif neu heriol. Gall ein canllawiau Kids in Museums am ymgysylltu plant, pobl ifanc a theuluoedd gyda thopigau sensitif gynnig cymorth gyda hyn.
- Rydym yn argymell ysgogi deialog, annog archwiliad a defnyddio iaith weithredol. 'Beth ydych chi'n meddwl? Allwch chi ddychmygu? Ydych chi erioed wedi gweld un o'r rhain o'r blaen?"
- Meddyliwch pa gynnwys fydd yn apelio at deuluoedd – mae hanesion erchyll, ffeithiau hwyliog, straeon bywyd go iawn, mythau, chwedlau ac anifeiliaid oll yn fannau cychwyn da.

Mae lluniau'n ffordd wych o rannu mwy o straeon am eich gwaith, ac yn bromptiau gweledol gwych i deuluoedd. Os byddwch chi'n dewis gwneud hyn, dewiswch arddull ddarlunio fydd ddim yn dyddio a sicrhewch, pan fyddwch yn darlunio pobl, eich bod yn adlewyrchu amrywiaeth yn eich delweddau. Mae gan Abaty Westminster esiamplau gwych o hyn drwy ei raglenni i deuluoedd a'i ddehongliadau i gyd, fel y gwelwn ar y we dudalen i deuluoedd.

## Cadw'r dehongliadau i deuluoedd yn hygyrch

Mae lliwiau llachar a darluniau lliwgar yn wych a gallant apelio'n fawr at deuluoedd, ond cofiwch gadw egwyddorion mynediad yn eich meddwl er mwyn sicrhau bod eich testun yn ddarllenadwy ac yn cyflawni'r argymhellion am arferion gorau. Darllenwch Exhibitions for All, sy'n arweiniad ymarferol i lunio arddangosfeydd cynhwysol gan National Museums Scotland.

Meddyliwch am uchder eich labeli – ydy plant yn gallu eu gweld nhw, yn cynnwys y plant hynny sydd mewn cadeiriau olwyn? Mae gwrthgyferbynu lliwiau yn ffactor allweddol er mwyn eu gwneud nhw'n hawdd eu defnyddio, ac mae'r goleuo'n allweddol hefyd i sicrhau bod y labeli'n hawdd eu darllen.

Cofiwch gynhyrchu eich adnoddau i deuluoedd mewn fformatau hygyrch hefyd, megis canllawiau print mawr, Braille, iaith arwyddion Prydain a fideos gyda sgrindeitlau. Mae llawer o safleoedd yn ceisio defnyddio ieithoedd arwyddion eraill yn awr fel Makaton. Yn y postiad Instagram yma, rydym yn rhannu enghreifftiau gan Amgueddfa Wakefield, sydd wedi gosod elfennau Makaton drwy eu safleoedd cyfan.

## Profwch, Profwch, Profwch

Yn olaf, pan fyddwch yn cynhyrchu unrhyw destun neu adnoddau i deuluoedd, cofiwch ysgrifennu gyda nhw, nid iddyn nhw. Efallai y gallwch sefydlu grŵp ffocws i brofi eich syniadau, neu gofynnwch i deuluoedd lleol roi sylwadau ar eich panelau i sicrhau eu bod nhw'n addas i'w pwrpas. Edrychwch ar adnoddau SEND in Museums Working With Not For Families: A Quick Guide To Consulting With Families i gael rhagor o wybodaeth am hyn.

**Darllen pellach / Adnoddau defnyddiol**

Y newyddion da yw bod llwyth o gymorth ar gael i gynhyrchu dehongliad addas i deuluoedd. Dyma restr ddarllen gyflym i'ch cadw chi'n mynd:

- Association for Heritage Interpretation
- The Children's Country House yn Sudbury
  Mae safle tirnod y National Trust yn rhoi cynnig ar ddehongliadau newydd i deuluoedd drwy'r amser.
- Human Centred Design Handbook – Derby Museums
- Dehongli - Canllaw Arfer Da – Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol
  Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi cyflwyno canllaw gwych sy'n cynnwys gwybodaeth glir am gynhyrchu dehongliadau hygyrch.
- Evaluation Toolkit for Museum Practitioners – SHARE Museums East
  Mae'r pecyn cymorth yma'n ddefnyddiol i ddatblygu technegau ymgynghori.

**Rhagor o wybodaeth am lefelau darllen**

- Grammarly
- Hemingway Editor
- Lefelau darllen ar gyfer gwe-dudalennau – Cyngor Sir Surrey

Mae gwefan Kids in Museums yn orlawn â chyngor, astudiaethau achos a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chynhyrchu dehongliadau addas i deuluoedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Sut all eich amgueddfa gefnogi plant a phobl ifanc i ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol?
- Sut all eich amgueddfa weithio ochr yn ochr â phlant, pobl ifanc a theuluoedd i ddatblygu arferion gwrth-hiliol?
- Sut all eich amgueddfa ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a theuluoedd sydd â threftadaeth LHDTC+?